

Enw'r Polisi:	Polisi Dyrchafiadau	Rhif P: P1718-1077
Perchennog y Polisi:	Charlie James, Arweinydd Gweddnewid: Perfformiad, Adnoddau Dynol	
Dyddiad Cyhoeddi/Adolygiad Diwethaf: Mai 2018		
Dyddiad Adolygu Nesaf: Mai 2019		
Deddfwriaeth / canllaw ACAS perthnasol os yw'n gymwys:	Amh.	
Dogfennau sy'n cael eu disodli:	Amh.	
Datganiad Polisi:		
<p>Pwrpas Bwriad y Brifysgol yw sicrhau bod staff yn cael eu gwobrwyo'n briodol a bod dyrchafiad yn cael ei gymhwyso'n gyson ac yn deg, mewn modd penodol ac effeithiol. Bydd hyn yn sicrhau bod y Brifysgol yn gallu adnabod a chadw staff rhagorol a bod dyfarniadau dyrchafu'n seiliedig ar feini prawf agored, tryloyw a gwrthrychol.</p> <p>Pan fydd y Brifysgol yn gweithredu gweithdrefnau dyrchafu, bydd gweithdrefnau o'r fath yn dilyn yr un cyfnodau allweddol, sef:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cais 2. Penderfyniadau wedi'u gwneud gan Bwyllgor Dyrchafiadau 3. Canlyniad y penderfyniad yn cael ei gyfathrebu <p>Cwmpas Mae'r polisi a'r gweithdrefnau dyrchafiadau'n gymwys i bob gweithiwr Academaidd ac Ymchwil.</p> <p>Egwyddorion Allweddol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau proses ddyrchafu sy'n agored, teg a thryloyw • Adlewyrchir cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar ddyrchafu. Bydd canlyniad unrhyw benderfyniad dyrchafu'n seiliedig ar deilyngdod, wedi'i ategu gan feini prawf gwrthrychol ac heb ragfarn. Bydd y gwaith monitro yn cael ei wneud i sicrhau mai dyma fydd yn digwydd • Mae'r holl rai sy'n gwneud penderfyniadau yn y broses wedi'u hyfforddi mewn cydraddoldeb ac yn deall y broses. Mae cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn dod â chyfrifoldebau i weithredu'n deg a thrin yr holl staff yn gyson yn seiliedig ar y dystiolaeth a roddir • Bwriedir i'r broses ddyrchafiadau fod yn ddatblygiadol ac felly bydd unrhyw ymgeisydd aflwyddiannus yn cael cyfle i gael adborth adeiladol i ddeall yr hyn sy'n ofynnol ar gyfer datblygiad gyrfa lwyddiannus • Bydd y broses mor effeithlon ac amserol â phosib gan sicrhau bod yr holl staff yn gwbl glir o'r graddfeydd amser • Mae'r Brifysgol yn cydnabod, o dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen gwneud penderfyniadau gweithredol y tu allan i'r fframwaith hwn i sicrhau bod talentau eithriadol yn cael eu cadw. Dirprwyir penderfyniadau o'r fath i'r Is-Ganghellor, a'u hadrodd wedi hynny i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol 		
Diffiniadau o dermau AD a ddefnyddir yn y polisi hwn:		
Amh.		
Gweithdrefnau Ategol/Dogfennau Canllaw/Codau Ymarfer gyda Rhifau P a hyperddolenni:		
Gweithdrefn Ddyrchafiadau ar gyfer Staff Ymchwil Gweithdrefn Ddyrchafiadau ar gyfer Staff Academaidd Galluogi Perfformiad		